**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Tachwedd 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: Newidiadau arfaethedig yn ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn**

**Diben**

1. Yn dilyn ystyried y Rheolau Sefydlog ar fusnes y cyfarfod llawn ar 2 Tachwedd, gwahoddir Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion nas trafodwyd ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog (y rheini sy'n ymwneud â threfn busnes, y Pwyllgor Busnes, busnes a threfn yn y cyfarfod llawn a gweithdrefnau gosod a chyflwyno, sef Rheolau Sefydlog 6, 7, 8, 9, 11 a 29 presennol, (gweler Rhan 1 ac Atodiad A a B). Ceir 'fersiynau glân' o'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig, yn Atodiad B i'r papur hwn.

2. Gwahoddir Rheolwyr Busnes hefyd i ystyried a ddylid mynd ar drywydd unrhyw gynigion ar gyfer arloesedd gweithdrefnol ym musnes y cyfarfod llawn er mwyn sicrhau bod y cyfarfod llawn yn fwy perthnasol a gwerthfawr (Rhan 2, paragraffau 31 i 34 isod).

**Rhan 1: Cynigion nas trafodwyd ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog**

*i. Hyblygrwydd o ran amseriad:*

3. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i gael esboniad pellach o ran sut y byddai'r cynnig i gyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran amseriad mewn perthynas â threfn busnes yn y cyfarfod llawn yn gweithio. Cynigir y bydd RhS 7.5A newydd yn cymryd lle'r Rheolau Sefydlog a ganlyn: 7.7, 7.8 a 7.9, sy'n pennu strwythur diwrnodau'r cyfarfod llawn ar hyn o bryd.

4. Y prif newid fyddai dileu'r cyfyngiad, a fyddai yn y bôn, ond yn caniatáu i fusnes "y llywodraeth" gael ei gynnal ar ddydd Mawrth; ac fel arfer ond yn caniatáu i fusnes "y llywodraeth" gael ei gynnal rhwng 1.30 a 2.30pm ar ddydd Mercher, a dim ond busnes "y Cynulliad" ar ôl 2.30pm.

5. Effaith hyn fyddai rhoi mwy o ryddid i'r Pwyllgor Busnes bennu sut i drefnu patrwm busnes y cyfarfod llawn ar ddydd Mawrth a dydd Mercher, yn hytrach na'i fod wedi'i bennu'n dynn yn y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, byddai rhaid i fusnes y llywodraeth a'r Cynulliad lynu wrth y rhaniad o 3:2 o ran amser o hyd, yn unol â RhS 7.6 (ni chynigir unrhyw newid).

6. Rheol Sefydlog 6.1 bresennol (cynnig i gymeradwyo amserlenni amlinellol ar gyfer cyfarfodydd llawn) fyddai'n darparu'r prif ddull ar gyfer pennu fframwaith arferol ar gyfer amser "y llywodraeth" ac amser "y Cynulliad". Gall y Pwyllgor Busnes gynnwys cymaint o fanylion ag y mae'n teimlo ei fod yn briodol ynghylch hyn a byddai'n rhoi sicrwydd creiddiol ynghylch trefn busnes yn y cyfarfod llawn am o leiaf 6 mis o flaen llaw.

7. Fodd bynnag, gallai'r amserlen ganiatáu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd o ran addasu yn ystod y tymor er mwyn ymateb i ofynion busnes a rheoli amser y cyfarfod llawn yn effeithiol. (Gallai Rheolau Sefydlog hefyd ddarparu bod angen cynnal pleidlais yn y Pwyllgor Busnes os am wyro oddi wrth y drefn).

8. Ni ragwelir y byddai'r Pwyllgor Busnes am fynd ati i drefnu busnes dydd Mawrth a dydd Mercher yn wythnosol gan fod rhaid cael rhybudd o fusnes i sicrhau y caiff unrhyw gynigion perthnasol eu cyflwyno o fewn yr amserlenni gofynnol ac er mwyn sicrhau bod yr Aelodau perthnasol yn bresennol.

9. Yn hytrach, byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes naill ai barhau â'r trefniadau fel y maent ar hyn o bryd o ran dyrannu amser yn ystod y cyfarfod llawn, neu gytuno ar batrwm rheolaidd gwahanol, er enghraifft, cynnal busnes "y llywodraeth" yn gyntaf ar ddydd Mawrth gydag eitem (eitemau) o fusnes "y Cynulliad" i ddilyn, a'r un peth ar ddydd Mercher.

10. Yr unig gyfyngiad arall fyddai o dan Reolau Sefydlog 7.5A, 7.6 a 7.15:

(i) rhaid cynnal eitemau'r llywodraeth yn gyntaf "fel arfer" (RhS 7.5A);

(ii) rhaid sicrhau rhaniad o 3:2 rhwng amser busnes y llywodraeth a busnes y Cynulliad (a fyddai'n cynnwys busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y llywodraeth) mewn blwyddyn Cynulliad, cyhyd ag y bo'n ymarferol (RhS 7.6 – ni chynigir newid);

(iii) gellir rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o fusnes o hyd h.y. y rheini y gellir ymdrin â hwy heb rybudd (yn debyg i'r hyn y'i diffinnir ar hyn o bryd fel busnes "y Cynulliad") (RhS 7.15).

11. Mae RhS 7.5A yn cynnwys lefel debyg o hyblygrwydd â diwrnodau'r cyfarfod llawn ac amserau dechrau'r cyfarfod llawn fel y mae RhS 7.7 a 7.8 yn darparu ar eu cyfer ar hyn o bryd (mae RhS 7.7 yn nodi ar hyn o bryd bod cyfarfodydd llawn "i'w cynnal fel rheol ar ddydd Mawrth a dydd Mercher"; mae RhS 7.8 yn nodi bod rhaid iddo "[d]dechrau fel arfer am 1.30pm").

12. Fodd bynnag, ni fyddai cyfeiriad bellach at amser y bydd yn rhaid i'r cyfarfod llawn ddod i ben. Wedi dweud hyn, bydd RhS 7.5A yn parhau i fod

yn ddarostyngedig i ofyniad RhS 6.2, sy'n nodi bod rhaid "[rh]oi sylw i gyfrifoldebau'r aelodau tuag at y teulu".

13. I grynhoi, os cytunir ar y newid arfaethedig:

- bydd y rhaniad o 3:2 rhwng amser y llywodraeth ac amser y Cynulliad yn parhau;
- bydd y llywodraeth yn parhau i reoli'r amserlen ar gyfer ei busnes;
- bydd sicrwydd o ran patrwm rheolaidd busnes y cyfarfod llawn drwy gytundeb y Pwyllgor Busnes, sef amserlen 6 mis;
- bydd hyblygrwydd i gytuno ar batrwm gwahanol ond rheolaidd i'r hwnnw a geir yn y Cynulliad hwn neu i barhau â'r trefniadau presennol;
- bydd rhagdybiaeth y caiff busnes y llywodraeth ei gynnal yn gyntaf fel arfer ar unrhyw ddiwrnod penodol;
- bydd hyblygrwydd i amrywio o'r patrwm rheolaidd o fusnes ond dim ond â chytundeb y Pwyllgor Busnes.

*iii. Darpariaethau o ran y Cyfnod Pleidleisio: RhS 7.37 A newydd*

14. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am fwy o esboniad o ran cymhwyso'r cynnig i gael darpariaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol canu'r gloch, os daw busnes y dydd i ben cyn y cyfnod pleidleisio y cytunwyd arno.

15. Y rheswm dros gael cyfnod pleidleisio yw rhoi sicrwydd i Aelodau o ran pryd y caiff pleidlais ei chynnal. Os cytunir ar amser penodol ar gyfer y cyfnod pleidleisio, er enghraifft 'heb fod yn gynt na 5pm' ond iddo wedyn gael ei ddwyn ymlaen drwy gytundeb y rheini sy'n bresennol yn y Siambr ar y pryd, bydd rhai Aelodau, fel yr Aelodau annibynnol neu'r rheini nad oes ganddynt chwip plaid, o dan anfantais posibl.

16. Felly, ein cyngor i'r llywodraeth a'r Pwyllgor Busnes yw pennu amser pleidleisio o ran pwynt ar agenda e.e. 'ar ddiwedd eitem X'. Os felly, cyfrifoldeb yr Aelodau fyddai i fod yn y Siambr ar yr amser hwnnw pe baent am bleidleisio.

17. Byddai'r newid arfaethedig i Reolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i ganu'r gloch, dim ond os oes amser penodol wedi'i bennu ac os yw busnes wedi dod i ben cyn hyn.

18. Byddai'r ddarpariaeth gyffredinol i ganu'r gloch cyn y cyfnod pleidleisio (ar ba amser bynnag), os bydd tri Aelod yn gofyn am hynny, hefyd yn parhau yn y Rheolau Sefydlog heb unrhyw newid wedi'i gynnig iddi (RhS 7.37).

19. Mae'r Rheol Sefydlog yn nodi "oni fydd pob aelod yn bresennol", fel pe na bai diben canu'r gloch pe bai'r holl Aelodau yn bresennol yn y Siambr, hyd yn oed pe bai busnes wedi dod i ben cyn y cyfnod pleidleisio penodedig (RhS 7.37A) Yn dilyn y pryder a godwyd yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf, rydym yn cynnig diwygio'r geiriad i ddweud 'oni bai bod y Llywydd yn fodlon bod pob aelod yn bresennol'. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i osgoi dehongli'r ddarpariaeth yn llythrennol pe bai'n hysbys nad yw Aelod yn gallu bod yn bresennol.

*iii. Cwestiynau Llafar*

20. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes a fyddai'n bosibl cael opsiynau amgen ar gyfer y cynnig i ddileu'r cyfyngiad presennol ar y cyfnod hwyaf ar gyfer cwestiynau o dan Reol Sefydlog 7.48. Cynigiwyd y newid i adlewyrchu arfer sefydledig.

21. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried yr opsiynau canlynol:

(i) cynyddu'r cyfnodau hwyaf, er enghraifft, cyfnod hwyaf o 60 munud ar gyfer cwestiynau'r Prif Weinidog, 45 munud ar gyfer Gweinidogion;

(ii) newid i amser dangosol, drwy ychwanegu er enghraifft, bod "rhaid neilltuo hyd at 60 / 45 munud ar gyfer yr eitem hon ar y datganiad busnes"; neu

(iii) parhau â'r trefniadau presennol drwy beidio â newid y Rheol Sefydlog.

*iv. Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn: Rheol Sefydlog 8.3A*

22. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig ar gyfer darpariaeth newydd i alluogi'r Cynulliad i wahodd rhywun i'w annerch, os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno ar hynny. Byddai hyn yn rhoi'r opsiwn i'r Pwyllgor Busnes ganiatáu i eraill annerch y cyfarfod llawn fel eitem ar yr agenda, yn hytrach na chyn dechrau'r cyfarfod llawn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd (RhS 8.3A).

23. Byddai hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes, ar sail eithriadol, wahodd eraill i annerch y Cynulliad yn ffurfiol fel rhan o drefn y diwrnod. Ni fyddai hyn yr un peth â chaniatáu i rywun gymryd rhan mewn trafodion – mae hwn yn hawl a gyfyngir i Aelodau ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

24. Pe bai'r Cynulliad am ganiatáu i berson pwysig sy'n ymweld â'r Cynulliad i'w annerch, y drefn a ddilynwyd hyd yn hyn yw:

- annerch y Cynulliad cyn cyfarfod llawn, ond nad yw'n rhan o drafodion ffurfiol y Cynulliad;

- sefydlu Pwyllgor y Cynulliad Cyfan. Mae hyn yn galluogi Aelodau i ofyn cwestiynau yn dilyn datganiad cychwynnol ac mae'n rhan o drafodion ffurfiol y Cynulliad.

25. Byddai'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 8.3A yn osgoi'r angen i sefydlu Pwyllgor y Cynulliad Cyfan at y diben hwn. Fodd bynnag, byddai'r ddau opsiwn uchod ar gael o hyd i'r Pwyllgor Busnes pe bai'n ei ystyried fel fformat mwy priodol.

*v. Y Pwyllgor Busnes: Rheol Sefydlog 11*

26. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y newidiadau arfaethedig canlynol i ddarpariaethau'r Pwyllgor Busnes (Rheol Sefydlog 11):

(i) esbonio mai rôl y Pwyllgor Busnes yw "hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Cynulliad yn effeithiol": byddai hyn yn cwmpasu rôl ehangach y Pwyllgor Busnes, er enghraifft, wrth gytuno ar gyfarfodydd Pwyllgor ychwanegol y tu allan i amserlen y Cynulliad (RhS 11.1);

(ii) newidiadau i aelodaeth – ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth i'r Pwyllgor Busnes wneud newidiadau i aelodaeth yn ystod cyfnod Cynulliad. Hyd yn hyn, gwnaed hyn o dan Reol Sefydlog 10.3, na ddylai fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes mewn gwirionedd, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.2. Gellid gwirio'r bwlch hwn drwy ganiatáu i Reol Sefydlog 10.3 fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes (diwygio RhS 11.2);

(iii) esbonio, pe na bai'r Llywydd yn aelod o grŵp gwleidyddol, byddai ganddo'r hawl i bleidlais o sylwedd, yn ogystal â phleidlais fwrw.

(iv) dull o bleidleisio yn y Pwyllgor Busnes: ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 11.5 (vi) yn darparu nad yw Rheol Sefydlog 10.32 yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes (gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor wneud cais y caiff y bleidlais ei chofnodi yng nghofnodion y cyfarfod, a byddai'r Aelodau yn pleidleisio drwy godi eu dwylo). Nid oes rheswm pam na ddylai hyn fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes. Felly, cynigir y dylai Rheol Sefydlog 10.32 fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes hefyd (diwygio RhS 11.5(vi));

(v) dileu Rheol Sefydlog 11.9 sy'n pennu pryd y caiff y Pwyllgor Busnes gyfarfod yn breifat: byddai'r Pwyllgor yn dibynnu ar y darpariaethau cyffredinol i benderfynu cyfarfod yn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37

(ix) yn lle hynny, a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddo benderfynu pryd i gyfarfod yn breifat.

*iv. Rheol Sefydlog 29*

27. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y newidiadau i Reol Sefydlog 29 fel y'u dengys yn Atodiad A.

***Newidiadau o ran cyflwyniad / aildrefnu'r Rheolau Sefydlog***

28. Cynigiwn y dylid aildrefnu Rheolau Sefydlog 6, 7 ac 11 (gweler Atodiad B). Dylid cael un Rheol Sefydlog ar drefn busnes a fyddai'n cynnwys darpariaethau am:

- y Pwyllgor Busnes a'i swyddogaethau (darpariaethau RhS 11 bresennol);

- trefn busnes a sut y caiff ei bennu (Rheol Sefydlog 6 bresennol); a,

- y diffiniadau o fusnes "y Cynulliad" a busnes "y llywodraeth" a rhestr o'r eitemau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod blwyddyn Cynulliad, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 7 ar hyn o bryd.

29. Byddai hyn yn grwpio'r holl Reolau Sefydlog perthnasol ar sut y mae'r Cynulliad yn trefnu'i fusnes mewn un lle. Yna, dilynir hyn gan Reol Sefydlog 7 (heb y darpariaethau o dan y tri phwynt bwled uchod) a fyddai wedyn ond yn canolbwyntio ar drefn busnes a pha fusnes yr ymdrinnir ag ef yn y cyfarfod llawn (cwestiynau, cynigion, datganiadau a dadleuon byr).

30. Ceir hefyd rhai mân wallau drafftio sy'n symleiddio geiriad y Rheolau Sefydlog neu sy'n symud darpariaethau i safle mwy priodol yn y Rheolau Sefydlog, gyda'r nod o'i gwneud yn haws eu dilyn a'u deall.

**Rhan 2: Cynyddu perthnasedd: arloesedd yn y cyfarfod llawn a chynigion ymgynghori**

31. Ail faes y cytunodd y Pwyllgor i'w ystyried oedd sut i sicrhau bod busnes y cyfarfod llawn yn parhau'n rhan berthnasol a gwerthfawr o drafodion y Cynulliad. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion a ganlyn:

- mân newidiadau i Reolau Sefydlog a fyddai'n ofynnol ar gyfer y rheini a gynigir o dan baragraff 36 ac achos o newid ein prosesau i alluogi'r newidiadau hynny fyddai hyn yn bennaf;

- mae paragraff 37 yn nodi rhai o'r cynigion a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

32. Os bydd y Rheolwyr Busnes am fynd ar drywydd unrhyw un o'r cynigion hyn, bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes yn rhoi esboniad mwy manwl o sut y gallai'r rhain weithio ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r Rheolau Sefydlog er mwyn eu rhoi ar waith.

33. Cynigir y byddai modd rhoi'r meysydd a ganlyn ar waith o ran arloesedd a gwelliant yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (neu yn achos y Ddadl Fer, ei threialu cyn diwedd y Trydydd Cynulliad):

(i) Cwestiynau:

- cynnal balot i ddethol ymlaen llaw pa Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau yn hytrach na chynnal balot ar gyfer yr holl gwestiynau a gyflwynwyd; dim ond yr Aelodau hynny a gafodd eu dethol ymlaen llaw yn y balot a fyddai'n gallu cyflwyno cwestiynau erbyn y dyddiad cau arferol; byddai hyn yn lleihau faint o amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar baratoi cwestiynau na chaiff eu dethol wedi hynny;

- creu cyfle ar gyfer cwestiynau amserol fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (h.y. bod angen llai na 10 diwrnod o rybudd).

(ii) Cyfleoedd ar gyfer busnes y meinciau cefn:

- caniatáu amser ar gyfer trafod datganiadau barn fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (SOR 6, SOR 10, SOR 7) ac fel yr ystyriodd y Pwyllgor Busnes cyn hynny;

- dyrannu amser a dethol cynigion o'r meinciau cefn (gweler hefyd baragraff 15 uchod).

(iii) Dadl Fer:

- rhoi mwy o rybudd i'r Aelod a fu'n llwyddiannus o'i ddadl fer drwy gynnal balot rhwng 6 ac 8 wythnos ymlaen llaw fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (SOR 10, SOR 7). Byddai'r dyddiad cau ar gyfer rhoi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno o'i bwnc ar gyfer y balot yn parhau i fod 1 wythnos cyn y ddadl. Byddai hyn yn caniatáu rhagor o amser i Aelodau baratoi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.

- nid oes angen newid y Rheolau Sefydlog oherwydd hyn a byddai hyd yn oed modd treialu hyn cyn diwedd y Trydydd Cynulliad.

(iv) Trafodaethau ar ddeisebau: mae yna ddigon o hyblygrwydd yn y Rheolau Sefydlog i ganiatáu trafodaethau ar ddeisebau, sef mater arall a godwyd yn y digwyddiad yn y Pierhead a chan y Pwyllgor Deisebau (SOR19).

34. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i fynegi eu barn am y materion mwy arloesol a nodwyd yn y dystiolaeth, yn benodol:

- galw Gweinidogion yn ôl fel yn Nhŷ'r Cyffredin yng Nghanada ("the Late Show") (SOR11, SOR 10);

- cyflwyno slotiau i ganiatáu i Aelodau godi materion amserol gyda llai o rybudd na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd (SOR 11);

- anerchiadau cyntaf: caniatáu slot byr ar gyfer Aelodau newydd i gyflwyno'u hunain ac i bennu eu huchelgeisiau ar gyfer y tymor ac ar gyfer eu hetholaeth (SOR 7).

**Penderfyniad**

35. Gwahoddir y Pwyllgor i:

(i) cyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel y'u nodir yn Rhan 1, paragraffau 3 i 30 a chytuno mewn egwyddor ar unrhyw newidiadau nas trafodwyd i Reolau Sefydlog 6, 7, 8, 9, 11 a 29;

(ii) ystyried y cynigion yn Rhan 2 a nodi pa feysydd y maent am fynd ar eu trywydd ymhellach fel y cynigir ym mharagraffau 31 i 34.